

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 26ain Ionawr 2022 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. Hedd Pugh, Catrin Jones, Idris Jones, Berwyn Harding, Geraint Morgans, Rhys Davies, John P Jones, Ynyr Pugh, Robin Hughes, Sion Alun Roberts, John P Roberts (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan Cadeirydd y Cynghorydd Hedd Pugh. Roedd ymddiheuriad gan y Cyng. Arfon Hughes.
2. Nodwyd gyfle i dderbyn cyflwyniadau gan y cyhoedd. Nid oedd neb yn bresennol felly fe symudwyd ymlaen gyda'r cyfarfod.
3. Yn rhan yma'r cyfarfod, croesawyd Dylan Jones o Ymddiriedolaeth Ambiwllans Cymru i ymateb i'r cwynion gennym am y gwasanaeth. Rhoddwyd engreiffiau manwl i ddechrau o oedi afresymol yn yr ardal i aros am ambiwlans. Ymatebodd Dylan Jones drwy amlinellu eu sefyllfa, sef pwysau ychwanegol arnynt oherwydd lleihad mewn doctoriaid ar gael, a cholli oriau tu allan ysbytai gan and oedd lle i gleifion. Os oeddynt yn cael galwad 'coch' a oedd yn golygu brys arbennig, roedd dyletswydd arnynt alw am ddwy ambiwlans allan – gan fod rhaid cyrraed o fewn 8 munud yn ol eu targedau. Hefyd, os oeddynt yn boddhi mewn galwadau, roedd rhaid cael help o rywle arall, a oedd yn esbonio rhywun yn ateb y ffon ymhell or ardal hon. Roedd y fyddin wedi dod i mewn i helpu mewn nifer o achosion erbyn hyn, a oedd yn gymorth mawr. Daethpwyd a'r drafodaeth i ben gyda diolch i Dylan Jones, yn sicr roedd gwell dealltwriaeth o'u sefyllfa, a diolchwyd yn fawr i griwiau'r ambiwlans, doctoriaid a pharamedics am eu hymdrechion mewn cyfnod anodd iawn. Yn aml iawn, y sustem sydd ar fai, a diffyg arian. Dywedodd y byddai yn hapus i ddychwelyd eto, ac i edrych i mewn yn fwy manwl i achosion os oedd angen.
4. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Ragfyr ar gynnig y Cyng Idris Jones a'i eilio gan y Cyng. Ynyr Pugh.
5. Materion yn codi
 - a) **Materion Prifffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymateb i'r holl faterion i Gyngor Gwynedd ers y tro diwethaf, sef coed/gwrych yn gordyfu, ffordd yn rhoi yn Cwm Cewydd, a sbwriel ar y hen ffordd o Minllyn i Aberangell. Hefyd materion Cefnffyrdd, sef coed ger Brynhyfryd a coed a gwrychoedd ar yr A458 rhwng Groeslwyd a Dugoed Bach. Nodwyd hefyd fod y Cyng Arfon Hughes wedi danfon e-bost ynglyn a darn o dir ym maes Parcio Lawnt y Plas, ac roedd ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ar y 6ed Ionawr yn dweud '*Wedi edrych ar y safle Cofrestr Tir eto heddiw, a mae o dal yn dangos fel pending*'. *Awgrymaf eich bod yn aros i weld pwy yw y perchennog newydd er mwyn trafod y mater wedyn.* Yn rhan yma'r cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd na ddylai Cynghorywr godi materion rhwng cyfarfodydd gyda'r Clerc, ac mai ei waith ef oedd cofnodi a gweithredu ar beth sy'n cael ei basio mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor. Roedd hyn wedi ei basio or blaen gennym fel Cyngor, ac hefyd roedd y cod ymddygiad a chanllawiau'r Ombwsman wedi ei ddanfon i bawb gyda'r rhybydd y cyfarfod y tro hwn i atgoffa pawb. Dywedodd y Clerc fod rhaid cadw ar reolau, bod rhaid deall y berthynas rhwng y Cyngor a'r Clerc, deall be sy'n ddisgwyliadwy gan y Clerc, a lle mae'r atebolrwydd. Roedd hyn wedi ei amlinellu mewn ateb i'r Cyng John P Roberts dyddiedig 22ain Hydref, ac roedd pawb wedi cael copi. Dywedwyd y byddai y problemau yn cael eu hosgoi pe bai pawb yn deall a dilyn rheolau.

- b) **Coeden mynwent Mallwyd** – roedd dau amcangyfrif i law, a dewiswyd y rhataf, sef un Edward Griffiths, Llecheiddior, Talybont am gyfanswm o £800. Eglurwyd fod y gost yn cael ei rannu gyda'r Eglwys, felly roedd £400 i'w dalu gan y Cyngor Cymuned a chytunwyd i hyn. Roedd y Cadeirydd y Cyng Hedd Pugh wedi ymweld a'r safle, a'r gwaith wedi ei gwblhau.
- c) **Arwydd mynwent Mallwyd** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Signwrite, cwmni o Ddolgellau, a oedd wedi rhoi pris o £75. Cytunwyd i hyn.
- d) **Prosiect 'Ein Hardal ni – Dolgellau 2035'** – roedd y Cyng Catrin Jones mewn bod mewn cyswllt a Swyddfa'r Cyngor ynglyn a hyn.

6.Materion Cynllunio

Adroddwyd fod tri cais wedi eu cylchredeg I holl Gynghorwyr Mawddwy eisoes, ac ymateb wedi ei ddanfôn, sef;

NP5/74/466B – Codi to dros storfa dail presennol – Pennant, Llanymawddwy

NP5/74/T427B – Gosod sied bren iw defnyddio fel gweithdy yn lle carafan statig bresennol yn Dugoed Bach Mallwyd

Codi mast ffon, Tir yn Mynogau, Cwm Cerist – ymgynghoriad cyn cais

Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r 3 cais uchod.

.....

Yna aethpwyd ymlaen I drafod y canlynol;

NP5/74/498 – Gosod trac mynediad lifawndiroedd mewn perthynas a chynllun adfer mawndiroedd – Pennant Llanymawddwy

Roedd y Cyngor yn gefnogol gan fod hyn yn waith hanfodol. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Sion Alun Roberts, a gadawodd yr ystafell)

NP5/74/464E – Diwygio amod 3 o ganiatad cynllunio NP5/74/464 dyddiedig 15/06/17 I ymestyn cyfnod caniatáu hyd 01/07/2027 – Red Bull

Roedd y Cyngor yn gefnogol l'r cais, gan fod y gweithgarwch yn bwysig I economi yr ardal, ac yn rhoi Dinas Mawddwy ar y map.

6. Materion Cyllid.

Nodwyd y balansau presennol y cyfrifon sef Cyfri Cyfredol £6,469.53, Cyfri Claddedigaeth £2,067.78 Cyfri Cadw £768.70.

Roedd cadarnhad i law fod Cyngor Gwynedd wedi cydnabod y gohebiaeth yn dweud fod ein praesept ar gyfer 2022-23 yn £10,700.

Cyfeiriwyd at sefyllfa gwariant y Cyngor o'i gymharu a'r gyllideb, a oedd yn cael ei ddiweddarau yn rheolaidd. Aethpwyd drwy sefyllfa ariannol y Cyngor yn drwyadl, gan restru y taliadau tebygol oedd yn gwynebu y Cyngor hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol,

gan gynnwys taliadau o'r Cyfri Claddedigaeth. Cyfeiriwyd hefyd at lythyr Cyngor Gwynedd ynglych costau posib darpariaeth etholiad y flwyddyn nesaf.

Yn rhan yma'r cyfarfod, trafodwyd gyflog a chostau y Clerc a oedd wedi ei drafod I fanylder mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid yn gynharach yn y noson. Dywedodd y Clerc nad oedd am dderbyn unrhyw gynnydd eleni eto, beth bynnag fyddai penderfyniad y Cyngor, gan ei fod yn gwneud y gwaith er mwyn y gymuned. Gadawodd y Clerc yr ystafell I hyn gael ei drafod.

Pan ddychwelodd y Clerc I'r ystafell, adroddwyd fod y Cyngor llawn yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid I adael y cyflog a'r costau yr un fath, a diolchwyd yn fawr iawn I'r Clerc am ei waith gwych a oedd yn cael ei werthfawrogi yn fawr iawn, ac roedd y Cynghorwyr yn deall fod yna lawer mwy o waith yn cael ei wneud nag a dalwyd amdano.

Cytunwyd I dalu y canlynol;

Tegid Humphreys am dorri gwair mynwent Llanymawddwy a Mallwyd, ynghyd a gwrych mynwent Llanymawddwy - £910
Roedd y Clerc wedi atgoffa Tegid o bwysigrwydd cael yswiriant ar gyfer y gwaith, ac roedd Tegid wedi cadarnhau hyn.

Hefin Pugh am osod slabs concrit ar wal y fynwent yn y Dinas - £168.

Roedd 2 cais am arian I law, ac yn dilyn trafodaeth faith, ar gynnig Cyng John P Jones a'l eilio gan Geraint Morgans, cytunwyd yn unfrydol fel a ganlyn;

Ambiwllans Awyr Cymru – £400

Clybiau Ffermwyr Ieuaic Meirionnydd - £320 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Hedd Pugh)

Hefyd penderfynwyd rhoi cyfraniad o £320 i Glwb Ffermwyr Ieuaic Dinas Mawddwy

Cytunwyd hefyd I gyfrannu I'r canlynol fel ag a wneir yn flynyddol;

Neuadd Dinas Mawddwy - £800 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Hedd Pugh a Catrin Jones)

Neuadd Aberangell - £400 (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Berwyn Harding)

Cylch Meithrin Dinas Mawddwy - £640 (yn ddibynnol ar dderbyn cais)

7. Gohebiaeth.

a) Cyfeiriwyd at lythyr gan Lywodraeth Cymru yn rhoi cyfle I Gynghorwyr Mawddwy hawlio taliadau at uchafswm o £150 – ac yn unol a Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011. Byddai rhaid i hyn gael ei gyhoeddi. Cytunodd pawb yn unfrydol I beidio a hawlio dim treuliau.

b) Amlinellwyd e -bost am Brosiect Afancod Cymru – a gweithdai ymgynghorol.

Gofynnwyd I'r Clerc ddanfôn y wybodaeth I'r Cynghorwyr.

c) Nodwyd lythyr Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd biniau halen yn cael eu llenwi yn rhad ac am ddim o hyn ymlaen.

d) Nodwyd lythyr Cyngor Gwynedd am Etholiadau Cyngor Cymuned I'w cynnal ar y 5ed Mai 2022. Roedd amcangyfrif y gallai costau fesul cymuned fod yn £1500. (gweler uchod o dan matron cyllid)

- e) Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021 – nodwyd lythyr yn cadarnhau canlyniad yr ymgynghoriad – nid oedd raid i bob Cyngor gyfarfod a'r gofynion.
- f) Roedd copi o gwyn am Swyddfa Bost Dinas Mawddwy I law, a gwelwyd fod angen cael eglurhad am beth yn union oedd y sefyllfa. Yn sicr nid oedd y Swyddfa bost ar agor ar yr oriau yr hysbyseb, ac roedd angen mynegi hyn yn glir.
- g) Cyfeiriwyd at lythyr gan Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant a gynigir ganddynt – roedd hyn wedi ei ddosrannu eisoes.
- h) Cyfeiriodd y Clerc at e-bost gan y Cyng Arfon Hughes ynglyn a dwr yn gollwng yn toiled Dinas Mawddwy. Y tro hwn roedd y Clerc wedi ymdrin a'r mater a danfon I Gyngor Gwynedd. Pwysleisiodd y Cadeirydd unwaith eto mai Clerc I gyfarfodydd y Cyngor oedd Clerc Cyngor Cymuned Mawddwy, nid I unigolion o'r Cyngor. Roedd croeso I bob Cynghorydd gysylltu gyda Cyngor Gwynedd eu hunain yn eu statws fel unigolion, neu gyda'r Cynghorydd Sir os yn berthnasol.
- i) Nodwyd bwletin chwarterol Mantell Gwynedd – byddai'r Clerc yn ei ddosrannu I bawb o'r Cynghorwyr.
- j) Cyfeiriwyd at nodyn briffio ar yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri – dogfen ar y cyd gan Gyngor Gwynedd a Parc Cenedlaethol Eryri.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Diolchwyd i Huw Jones Maescamlan am gynorthwyo i glirio cangen ar y ffordd gefn i Aberangell yn ddiweddar. Mynegwyd beirniadaeth fod y Clerc wedi ei dagio yn bersonol ar ei gyfrif facebook gyda'r mater yma. Roedd y Clerc yn gwneud y swydd yn broffesiynol, ac nid oedd hyn yn dderbyniol. Pwysleisiwyd mai mater i Gyngor Gwynedd oedd hyn, nid Cyngor Cymuned, ac y dylid cysylltu a rhif allan o oriau gwaith Cyngor Gwynedd os oedd angen. Dywedwyd hefyd fod angen i bawb geisio cymryd cyfrifoldeb eu hunian am ddatrys materion, a chynorthwyo gorau y gallent.
- b) Roedd cwynion am faw cwn yn yr ardal – gan gyfeirio at Dolybont a llwybr y chalets ger Lawnt y Plas. Gofynnwyd a oedd modd cael arwyddion / cael bagiau pwrpasol wrth law.
- c) Mynegwyd anfonlonrwydd am achos o gais cynllunio yn Minllyn, a oedd, mae'n ymddangos, yn safle oedd yn dir comin yn flaenorol. Roedd angen eglurhad am y sefyllfa, ac a oes modd i'r Cyngor Cymuned gofrestru tir comin er budd y gymuned.
- d) Roedd cwynion fod plant yn yr ysgol yn cael eu gorfodi i lanhau eu dwylo yn aml iawn, yn wir yn afresymol o reolaidd yn yr ysgol. Addawodd Cyng John P Roberts godi y mater yma mewn cyfarfod o'r Llywodraethwyr.
- e) Roedd gwrych angen ei dorri yn yr arhosfan yn Mallwyd sydd o flaen y Brigands.
- f) Roedd yna ffos yn gorlifo ger Y Winllan yn Aberangell, ac angen sylw Cyngor Gwynedd.
- g) Roedd angen ysgubo y rhiw i lawr o'r A470 i mewn i Dinas, hefyd y llwybr lawr i Dolybont ac hefyd i gyfeiriad y Buckley. Dywedodd Cyng J P Roberts (Cyngor Gwynedd) fod gweithlu wedi eu penodi yn ddiweddar i ymdrin a materion fel hyn.
- h) Roedd angen edrych i mewn i ddwr a oedd yn broblem ar rhiw Landrin – roedd yn ymddangos ei fod yn dod o draen BT gyfagos.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY, NOS FERCHER
9fed Mawrth 2022, 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.30yh.

